# Cefnogi defnyddio adnoddau ac offer yn ddiogel a chynaliadwy

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn nodi'r gofynion wrth gefnogi defnyddio adnoddau a chyfarpar yn ddiogel a chynaliadwy. Mae hyn yn cynnwys cyfrannu at symud adnoddau a chyfarpar yn ddiogel, monitro eu hargaeledd, a chefnogi'r gwaith o'u cynnal a chadw drwy arferion cynaliadwy.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. nodi adnoddau neu offer y mae angen eu symud, eu storio a'u defnyddio
2. gweithio mewn partneriaeth â phawb sy'n rhan o’r gwaith hwn er mwyn cytuno ar sut y bydd yr adnoddau neu’r offer yn cael eu symud, eu storio a’u defnyddio yn unol ag asesiadau risg
3. cymryd camau i leihau neu ddileu risgiau a nodwyd er mwyn diogelu eich hun ac eraill
4. symud adnoddau neu offer yn unol â gofynion y gweithle ac asesiadau risg i'w diogelu rhag difrod neu halogiad
5. storio adnoddau ac offer yn unol â gofynion y gweithle ac asesiadau risg i'w diogelu rhag difrod neu halogiad
6. cefnogi defnyddio adnoddau ac offer yn ddiogel a chynaliadwy, ac annog eraill i wneud hynny
7. cefnogi'r gwaith o gynnal a chadw offer yn rheolaidd yn unol â gofynion y gweithle
8. cyfrannu at adrodd a datrys unrhyw broblemau, diffygion, atgyweirio neu amnewid adnoddau ac offer
9. cyfrannu at fonitro ac ailgyflenwi'r stoc o adnoddau ac offer gan ddefnyddio dulliau cynaliadwy
10. glanhau offer a gwaredu gwastraff gan ddefnyddio dulliau atal a rheoli heintiau, a chyfarpar diogelu personol
11. cyfrannu at gofnodion ac adroddiadau sydd eu hangen ar gyfer cefnogi defnyddio adnoddau ac offer yn ddiogel a chynaliadwy
12. myfyrio ar sut y gwnaethoch gyflawni eich rolau a'ch cyfrifoldebau i gefnogi defnyddio adnoddau ac offer yn ddiogel a chynaliadwy, gydag adborth gan eraill

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. y mathau o adnoddau ac offer a all gael eu symud, eu storio a'u defnyddio
2. sut mae cael gafael ar asesiadau risg ar adnoddau ac offer, a'u hadolygu
3. pwysigrwydd symud adnoddau ac offer yn ddiogel er mwyn lleihau difrod, a sut i wneud hyn
4. egwyddorion symud a thrin yn ddiogel, a'r goblygiadau i chi ac eraill os na chânt eu dilyn
5. pwysigrwydd storio adnoddau ac offer yn ddiogel ac yn gynaliadwy
6. effaith halogiad ac amodau amgylcheddol ar adnoddau ac offer
7. sut mae monitro'r stoc o adnoddau ac offer mewn ffordd gynaliadwy, a pham
8. y mathau o ddyfeisiau ac adnoddau digidol a all gefnogi defnyddio adnoddau a chyfarpar yn ddiogel a chynaliadwy
9. y dulliau atal a rheoli heintiau a ddefnyddir wrth lanhau cyfarpar a gwaredu gwastraff, a pham fod hyn yn bwysig
10. pwysigrwydd cynnal a chadw offer yn rheolaidd a chanlyniadau posibl os na chaiff hynny ei wneud
11. sut mae ymateb i faterion a diffygion a threfnu atgyweirio neu amnewid am adnoddau ac offer
12. y cofnodion a'r adroddiadau sydd eu hangen ar gyfer cefnogi defnyddio adnoddau ac offer yn ddiogel a chynaliadwy
13. y gofynion cyfreithiol, y safonau ymarfer, y fframweithiau a'r canllawiau perthnasol ar gyfer defnyddio adnoddau ac offer yn ddiogel a chynaliadwy
14. sut mae gweithio mewn partneriaeth ag eraill i gefnogi defnyddio adnoddau ac offer yn ddiogel a chynaliadwy
15. sut mae eich profiadau personol a'ch rhagfarn ddiarwybod yn gallu effeithio wrth gefnogi defnyddio adnoddau ac offer yn ddiogel a chynaliadwy, a sut i fynd i'r afael â hyn
16. rôl goruchwyliaeth, ymarfer myfyriol, a dysgu a datblygu wrth ddefnyddio adnoddau ac offer yn ddiogel a chynaliadwy.

## Geirfa

Mae'r eirfa ar gyfer y Safon Alwedigaethol Genedlaethol hon ar gael ar wefan Sgiliau Gofal a Datblygu.

HSCCLD233

Cefnogi defnyddio adnoddau ac offer yn ddiogel a chynaliadwy

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Care & Development |
| **Fersiwn rhif** | 1 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2026 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2031 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Skills for Care and Development |
| **RCU gwreiddiol** | HSCCLD233 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant |
| **Cyfres/Set** | Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |
| **Geiriau Allweddol** | Adnoddau, Offer, Diogel, Cynaliadwy, Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |